

Cyfweliad gyda dau o flwyddyn 7
Moli Roberts a Jac Davies



Moli Roberts a Jac Davies, 7E

Yn ddiweddar, daliais i fyny gyda dau aelod o flwyddyn saith, Moli Roberts o Fethel a Jac Davies o Waunfawr, i weld sut yr oeddent yn setlo yn ei ysgol newydd ar ol tair wythnos. Dyma beth oedd gan y ddau o ddsbarth 7E i ddweud:

Felly, o'r profiadau yr ydych wedi gael hyd yn hyn, pa wers yw'ch hoff wers?

Jac: Fy hoff wers ar y funud ydi'r wers Gymraeg oherwydd dwi'n mwynhau ysgrifennu'n greadigol yn fawr ac dwi'n cael mwy o gyfle i wneud hynny yn y gweri.

Moli: Ffrangeg ydi'r wers dwi'n ei fwynhau fwyaf. Mae gennyf ddiddordeb mawr mewn ieithoedd ac mae'r iaith yma mor 'exotic'!

A beth am y wers yr ydych chi'n fwyhau leiaf?

J: Mathamateg, dim dwywaith amdani. Dwi'n casau ffracsiynau!

M: Y wers dwi'n ei fwynhau leiaf yw Hanes gan fy mod yn meddwl ei fod yn ddiflas, ond mae'r fideos rydym yn wylion ddoniol!

Be' ydych chi'n edrych ymlaen fwyaf am yn yr Ysgol?

M: Dwi'n edrych ymlaen yn ofnadwy am yr Eisteddfod Ysgol. Yn gyntaf oherwydd fy mod am gystadlu mewn unawd, deuawd ac mewn cystadlaethau arall er mwyn ennill pwyntiau i dy Gwyrfai, ac hefyd, yn ail oherwydd fod fy mhenblwydd ar yr un diwrnod!

A felly, ydych chi'n hoffi'r ysgol, ar y cyfan, hyd yn hyn?

J: Ydw. Mae'r ysgol uwchradd lawer mwy cyffrous na'r ysgol gynradd. Yn un, rydym yn cael mwy o gyfleoedd ac hefyd rwy'n dysgu mwy, sydd ddim yn beth drwg drwy'r amser!

M: Dwi'n hoff iawn o'r ysgol yma gan fy mod wedi gwneud lawer o ffrindiau newydd yma yn ogystal a'r ffrindiau o ysgolion eraill yr oedd gennyf yn barod.

Oes unrhyw un ohonoch wedi cymeryd diddordeb mewn chwaraeon yma?

J: Rwy'n bwriadu cymeryd rhan yn y treialon ar gyfer tim rygbi blwyddyn saith. Rwy'n meddwl bod y gem yn un gyffrous!

M: Rwyf wedi penderfynu cymeryd rhan yn y treialon ar gyfer timau pel-rwyd a hoci yr ysgol. Fedrai ddim disgwyl i gychwyn chwarae!

Ac y cwestiwn pywsica', ydych chi wedi mynd ar goll eto?

J: Dydw i heb fynd ar goll fy hun yn yr ysgol ond rwyf wedi gyrru rhywun o fy nosbarth y ffordd anghywir gan fod y person yn 'annoying'. Gyrrais y person i'r wers dechnoleg pan roedd gennym wers gymraeg.

M: Bron iawn i mi fynd ar goll pan roeddwn gyda fy ffrindiau gan fod un ohonynt yn meddwl ei bod yn gwybod yn well ac fe yrrodd hi ni y ffordd anghywir! Fuon ni ddim yn hir yn cael hyd i'r ffordd yn ol, diolch fyth!

Glywsoch chi unrhyw stori arswyd cyn dod i'r ysgol, am fwlio neu cael eich hongian ar fachyn cotiau?

J: Yr unig beth y glywais i oedd am 'nicknames' yr oedd gan y disgyblion ar yr athrawon, rhai ohonynt fwy diniwed na'i gilydd!

M: Fe glywais i fod 'na hogyn wedi marw yn y gampfa wrth wneud gymnasteg ac fod ei ysbryd dal o gwmpas y lle a hefyd clywais am 'swirlies' ble mae plentyn o flywddyn saith yn cael ei pen wedi ei stwffio lawr y toiled! Diolch fyth nad oeddent yn wir!